


CYNGOR TREF RHUTHUN RUTHIN TOWN COUNCIL

Neuadd y Dref
Ffordd Wynnstay
RHUTHUN
LL15 1AS
Ffôn: (01824) 703797
e-bost: clerc@cyngortrefrhuthun.gov.uk



Town Hall
Wynnstay Road
RUTHIN
LL15 1AS
Tel: (01824) 703797
e-mail: clerk@ruthintowncouncil.gov.uk

Clerc y Dref / Town Clerk: *Sandra Williams*

Eich Cyf/Your Ref:

Ein Cyf/Our Ref:

Dyddiad/Date:

12 Chwefror 2020

At Faer y Dref a Chynghorwyr
Cyngor Tref Rhuthun

Annwyl Aelod

Gofynnir i chi ddod i Gyfarfod Cyffredin **CYNGOR TREF RHUTHUN** i'w gynnal yn yr **Hen Lys, Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun NOS LUN, 17 CHWEFROR 2020** am **7:00p.m.** Nodir y busnes i'w drafod yn y cyfarfod yn yr agenda isod.

Yn gywir

Sandra Williams

Sandra Williams, **Clerc y Dref**

AGENDA

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
- 2. DATGAN BUDDIANNAU**
Datgan unrhyw fudd personol neu ariannol yn yr eitemau busnes a restrir isod.
- 3. ADRODDIAD Y MAER**
- 4. ADRODDIADAU'R AELODAU**
- 5. ADRODDIAD CYNGHORWYR SIR RHUTHUN**
- 6. COFNODION Y CYFARFOD CYFFREDIN BLAENOROL**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2019 a chadarnhau eu cywirdeb.
- 7. MATERION YN CODI**
- 8. COFNODION YR IS-BWYLLGOR CRAFFU ARIANNOL**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2020, wnaeth ailymgynnull ar 20 Ionawr 2020.
- 9. COFNODION Y PWYLLGOR AMWYNDERAU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.
- 10. COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**
Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2020.

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / Correspondence welcomed in Welsh and English

- 11. DIWEDDARIAD AM YR HEN LYS**
Derbyn diweddariad ynghylch yr Hen Lys.
- 12. FELODROM GOGLEDD CYMRU**
Derbyn diweddariad ynghylch y cais am Felodrom Gogledd Cymru.
- 13. WYTHNOS DYFODOL RHUTHUN 2020**
Trafod trefniadau ar gyfer Wythnos Dyfodol Rhuthun 2020 a chynnig i ddiweddarau cynllun Dyfodol Rhuthun gydag adran benodol ar weithgareddau Hamdden a Chwaraeon.
- 14. SEDD WAG AR Y CYNGOR TREF**
Derbyn hysbysiad na chafwyd cais gan etholwyr Rhuthun i gynnal etholiad i ethol aelod newydd i'r sedd wag, ac i gytuno ar y camau nesaf.
- 15. CYNRYCHIOLWYR CYNGOR TREF RHUTHUN AR GYRFF ALLANOL**
Derbyn hysbysiad bod y Cynghorydd Keiran Allsopp-Robson wedi cyflwyno ei ymddiswyddiad o Gorff Llywodraethol Ysgol Stryd y Rhos a thrafod cynrychiolydd newydd o'r Cyngor Tref ar y Corff Llywodraethol. Hefyd i ystyried cais gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych am enwebiad i gynrychioli Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 16. SIARTER RHWNG CYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED SIR DDINBYCH A CHYNGOR SIR DDINBYCH**
Ystyried cais i adolygu cynnwys y Siarter rhwng Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned Sir Ddinbych a Chyngor Sir Ddinbych ac ymateb i'r ymgynghoriad erbyn 27 Mawrth 2020.
- 17. ADOLYGU A DIWEDDARU RHEOLAU SEFYDLOG CYNGOR TREF RHUTHUN**
Adolygu a diweddarau Rheolau Sefydlog Cyngor Tref Rhuthun i adlewyrchu'r newid i fan cyfarfod y Cyngor Tref a'r ddogfen Rheoliadau Ariannol.
- 18. ENWAU PARTH CYNGOR TREF RHUTHUN**
Ystyried rhagor o wybodaeth ynghylch caffael y parthau .cymru a .wales ar gyfer Cyngor Tref Rhuthun.
- 19. GRŴP DINESYDD DA**
Cytuno ar ddyddiad cyfarfod y Grŵp Dinesydd Da.
- 20. YMGYRCH TACLUSO'R DREF 2020**
Trafod a chytuno ar ddyddiad ar gyfer ymgyrch flynyddol Tacluso'r Dref.
- 21. CAIS AM ARIAN SYMIAU CYMUDOL RHUTHUN**
Ystyried cais am adborth gan Amy Selby, Swyddog Datblygu Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych, ynghylch y cais gan Gymdeithas Trigolion Star Park am y symiau cymudol sydd ar gael, tuag at uwchraddio maes chwarae'r Caeau Chwarae Coffa.
- 22. DATHLIADAU DIWRNOD BUDDUGOLIAETH YN EWROP 75**
Ystyried llythyr gan SSAFA, elusen y Lluoedd Arfog, yn gofyn am wybodaeth ynghylch unrhyw ddigwyddiadau/gwasanaethau y bwriedir eu cynnal i ddathlu 75 mlynedd ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop, 8 – 10 Mai 2020.
- 23. CAIS AM GYMORTH ARIANNOL**
Ystyried cais am gymorth ariannol o £750.00 gan Glwb Rotari Rhuthun tuag at y digwyddiad Rasmus Mulod i'w gynnal ar 5 Medi 2020.

24. CAIS AM GYFRANIAD

Ystyried cais gan CAFC Clwyd 2020 am gyfraniad tuag at ymdrechion codi arian Clwyd fel Sir Nawdd Cymdeithas Frenhinol Amaethyddol Cymru eleni.

25. ASESIAID RISG BLYNYDDOL

Derbyn a chadarnhau'r Asesiad Risg Blynyddol.

26. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL

Derbyn a chadarnhau'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol.

27. DATGANIAD ARIANNOL

Derbyn a chymeradwyo'r datganiad ariannol ar gyfer y cyfnod yn diwedd 31 Ionawr 2020.

28. CYFRIFON I'W TALU

Cymeradwyo talu'r eitemau a ganlyn:

O gyfrif cyfredol Cyngor Tref Rhuthun:

100276	Zurich Municipal	Tâl adnewyddu'r polisi yswiriant ar gyfer 2020-21	£4,038.65
100277	HCI Data Ltd	Adnewyddu'r enwau parh cyngortrefrhuthun.gov.uk a ruthintowncouncil.gov.uk am ddwy flynedd	* £172.80
100278	Cambrian Woodland Services	Cyflenwi, gosod, tynnu ymaith a gwaredu'r goeden Nadolig	* £584.40
100279	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig a'u tynnu ymaith – ymweliadau 1 a 4	* £1,308.00
100280	KMT Electrical	Gosod goleuadau LED ar y goeden Nadolig a'u tynnu ymaith – ymweliadau 2 a 3	* £1,100.83
100281	Cyng. Heather Williams	Costau teithio am fynd i gyfarfod chwarterol Cymdeithas Cyngorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn y Rhyl a digwyddiad yr Arolygiaeth Cynllunio yn Llandudno	£47.80
100282	Hill & Roberts	Gwasanaeth cyfrifyddu a chyflogres – Chwefror 2020	* £84.00
100283	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi	Treth incwm ac yswiriant gwladol	£701.62
100284	Marian Rees	Gwasanaeth cyfieithu ar y pryd – Chwefror 2020	* £180.00

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £571.67)

O gyfrif Cyngor Tref Rhuthun – Yr Hen Lys

100027	Cyng. Gavin Harris	Ad-daliad am brynu'r bleinds ar gyfer yr Hen Lys	* £597.67
100028	Oakwood Property	Gwaith ychwanegol cytunedig, llai ffi cadw	* £2,169.88
100029	Scottish Power	Costau trydan yn yr Hen Lys, 18.01.19 – 13.12.19	£875.21
100030	Ruthin Décor Ltd	Paent ar gyfer yr Hen Lys	* £39.95
100031	Richard Williams Ltd	Pren ac eitemau cysylltiedig ar gyfer yr Hen Lys	* £216.00

(Mae'r eitemau wedi'u dynodi gyda * uchod yn cynnwys TAW adferadwy o £503.92)

29. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhau mai dyddiad cyfarfod nesaf y Cyngor Tref fydd nos Lun, 16 Mawrth 2020 am 7.00pm.